

COFNODION CYFARFOD O GYNGOR CYMUNED LLANENGAN A GYNHALIWDYD AR ZOOM, nos Fercher, Ionawr 13eg, 2021 am saith o'r gloch

PRESENNOL

O. Hefin Roberts (Cadeirydd); G. Ian Evans (Is-gadeirydd), Angharad Correia-Martins, Edward O. Griffith, Robert M. Jones, Owi Lloyd-Jones, Erfyl W. Roberts, William B. Williams; Cyngorwyr Dewi W. Roberts a John B. Hughes (Cyngor Gwynedd – Sylwebwyr)

YMDDIHEURIADAU

Wyn Griffiths, Alun Jones, John Gwilym Jones, Catherine Ll. Morris

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn arbennig Joanna Porter, Swyddog RSPB/Plantlife, i roi sgwrs am Lain y Pentref, Mynytho (gweler 5e) isod) ar ddechrau'r cyfarfod, a'r Cyng. Owi Lloyd-Jones yn dilyn ei lawdriniaeth ddiweddar.

1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Nid oedd gan neb fuddiant personol i'w ddatgan.

2. CADARNHAU COFNODION

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Ragfyr 9fed, 2020 yn gywir ar ôl i'r Clerc gywiro'r swm a dalwyd i Ganolfan Gymdeithasol Llanengan – £110.00 yn hytrach na £30.00 yng nghofnod 18e) Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau.

3. EITEMAU BRYD (Cadeirydd/Clerc) – Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Ni dderbyniwyd dim.

4. CEISIADAU CYNLLUNIO

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

C20/0872/39/DT	Cais Diwygiedig – Codi modurdy ar wahân – Corner House, Lôn Golff, Aber-soch – Caniatawyd eisoes
C20/1020/39/LL	Ail-leoli saith carafán o fewn cwrttil maes carafanau presennol – Maes Carafanau Rhandir, Lôn Plas Crwth, Mynytho – Cefnogir
C20/1033/39/TC	Cais Tystysgrif Cyfreithloni Defnydd ar gyfer defnydd bwriadedig o godi estyniad cegin unllawr cefn ac ochr – Caerwyn, Llangian – Cefnogir
C20/1035/39/TR	Gwaith gosod llinell drydan newydd – Cwrt y Chwarel, Allt Sychnant, Llangian – Caniatawyd eisoes
C20/1044/39/DT	Estyniad i'r tŷ presennol – The Summer House, Lôn Golff, Aber-soch – Gwrthwynebu oherwydd gorddatblygiad – mae fel tŷ newydd yn lle'r teras presennol

C20/1046/39/DT	Estyniadau ac addasiadau – Sandpiper, Lôn Rhoslyn, Aber-soch – Gwrthwynebir oherwydd gorddatblygiad, yn arbennig uchder yr estyniad a allai amharu ar olau tai cyfagos a goredrych o’r balconïau
C20/1047/39/DT	Estyniadau ac addasiadau – Corner House, Lôn Golff, Aber-soch – Gwrthwynebir oherwydd gorddatblygiad a byddai’r balconi’n goredrych eiddo drws nesaf
C20/1057/39/LL	Dymchwel ac ailgodi cwt glan môr – Cwt Glan Môr Rhif 4, Borth Fawr, Aber-soch – Gwrthwynebir oherwydd gorddatblygiad ac na chyflwynwyd cynlluniau presennol y cwt i’w cymharu â’r rhai newydd. Mynegwyd pryder y gwthir yr un bwriadedig yn ôl i’r dwyn ac ymestyn y decing ymhellach i’r traeth. Unwaith yn rhagor, teimlir mai ‘<i>keeping up with the Jones</i>’ ydi’r bwriad. [Disgwylir ateb ers dros flwyddyn oddi wrth Arweinydd y Cyngor a’r Adran Gynllunio i bryder y Cyngor hwn am y newidiadau/ ailadeiladu cytiau mwy fel y cais hwn.]

5. MATERION YN CODI

a) 12. Ysgol Aber-soch

Ni dderbyniwyd ateb i’r llythyr dim ond gohebiaeth yn hysbysu dechrau’r ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gau’r ysgol – rhwng Ionawr 12fed ac un o’r gloch ar Chwefror 23ain. Yna, llythyr yn gwahodd rhanddeiliaid i sesiwn ‘galw heibio’ rhithwir ar dri dyddiad gwahanol ond, ‘er mwyn sicrhau bod pawb sy’n mynychu yn elwa ar drafodaeth gynhwysfawr a theg, gosodir uchafswm o dri ar gyfer bob sesiwn unigol a gofynnir am y cwestiynau ymlaen llaw’. Mynegwyd anfonlonrwydd llwyr â hyn – mae’n annemocrataidd ac ymhell o fod yn drafodaeth deg.

b) 16. Gohebiaeth: ng) O Ddrws i Ddrws – Cais am Gyfraniad at Gario Cleifion i Apwyntiadau Meddygol a Gwahoddiad i Ymuno â’r Bwrdd Rheoli

Ni dderbyniwyd ymateb pellach i’r ymholiad am faint a ddefnyddiodd y gwasanaeth o’r gymuned hon cyn penderfynu ar swm y cyfraniad. (Gobeithir trefnu cyfarfod o’r Is-bwyllgor Ariannol i drafod y ceisiadau a ddaeth i law cyn cyfarfod mis Chwefror.)

c) 16. Gohebiaeth: h) Cyngor Cymuned Aberdaron – Meddygfa Rhydbach

Derbyniwyd llythyr yn egluro’r sefyllfa bresennol o ran Covid-19 wrth geisio trefnu apwyntiadau, ynghyd ag ategu’r ymddiheuriad cyffredinol a gyhoeddwyd yn dilyn yr ymateb i’r hysbyseb ddilornus am feddyg newydd yn yr Hydref.

ch) 15. Cynnig Cyng. Erfyl W. Roberts

Derbyniwyd llythyr diolch oddi wrth Bennaeth Ysgol Botwnnog am y ddau gyfrifiadur er na chyrhaeddont eto. Trafododd Cyngor Cymuned Boduan y llythyr a derbyniwyd e-bost oddi wrth Gyngor Cymuned Tudweiliog yn nodi y trefnodd ei Gadeirydd fenthyg pedwar gliniadur trwy Gwmni Cydweithredol Cymru i’r ysgol. Adroddodd EWR yr addawyd saith cyfrifiadur i’r ysgol erbyn hyn.

d) 16. Gohebiaeth: a) Cydlynnydd Partneriaethau Natur Lleol Gwynedd – Tir Mynytho

Cafwyd sgwrs gan Joanna Porter, Swyddog RSPB/Plantlife, ac aeth trwy’r adroddiad a baratôdd yn dilyn cyfarfod safle mis Tachwedd; penderfynwyd anfon copi o’r cytundeb ati er mwyn iddi gael trafod ei hawgrymiadau â Chyfoeth Naturiol Cymru a’r contractwr cyn cysylltu eto.

- dd) **15. Gohebiaeth: b) Ail-lenwi Cymru**
Ni chysylltwyd i ofyn am fwy o fanylion a holi beth yw'r sefyllfa o ran defnyddio ffowntenni dŵr o ganlyniad i'r Coronafeirws.
- e) **15. Gohebiaeth: c) Roy Milnes, Aberdaron – 'Dark Skies'**
Cyn cysylltu â'r Adran AHNE i holi beth yw'r sefyllfa parthed yr uchod, derbyniwyd gwahoddiad i fynychu cyfarfod rhithiol nos Fercher, Ionawr 27ain am bump o'r gloch. Bydd Dani Robertson, Cydlynnydd Partneriaeth Awyr Dywyll Gogledd Cymru sy'n gweithio i Barc Cenedlaethol Eryri, yn rhoi cyflwyniad; y Clerc am ei fynychu.
- f) **15. Gohebiaeth: ch) Anna E. Jones – Grisïau ar Lôn Pont Morgan**
Ni lwyddwyd ymchwilio pwy yw perchennog tir yr harbwr mewnol. Derbyniwyd copi, er gwybodaeth, o e-bost yr Aelod Lleol parthed pryder y Gymdeithas Dwristiaeth am y 'blerwch' sydd yno a'r angen o waredu'r hen gychod.

6. MYNWENT Y BWLCH

- a) **Arwyddion Ysbwriel**
Adroddwyd mai anwybyddu'r arwyddion ar y giatau a wneir ac y gadewir hen flodau ac ysbwriel ar safle'r biniau. Penderfynwyd cysylltu â'r Henaduriaeth i'w hysbysu gan y deil y fynwent dan ei ofal. Hefyd, cysylltir â Chynghorau eraill i holi beth wnânt hwy â biniau yn eu mynwentydd.
- b) **Trosglwyddo Mynwent y Capel**
Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach.

7. CAEAU CHWARAE

- a) **Grant Chwarae ar gyfer Parciau Chwarae Llywodraeth Cymru**
Deallwyd mai trwy gysylltiad lleol â chwmni Hogans y paentiwyd trac beicio Nefyn. Bydd rhaid trefnu ailosod y goliau'n iawn yng Nghae Chwarae Mynytho.

8. MATERION CYLLIDOL

- a) **Cyflenwad Trydan Toiledau Lôn Traeth**
Derbyniwyd gohebiaeth oddi wrth swyddog Business Utility Renewals Ltd., yn nodi y cafodd EDF drafferth cymeradwyo cytundeb y Cyngor trwy wiriad credyd a methu â chael hyd iddo fel busnes masnachu. O ganlyniad, ni all gwblhau ar ein rhan a gofynnodd i EDF anfon amcanbrisïau – fe'u derbyniwyd ond, ni chafwyd cyfle i'w cymharu cyn heno.
- b) **Meincïau Solar**
Cysylltwyd yn uniongyrchol â'r gwneuthurwyr yng Nghroatia oherwydd y diffyg ymateb oddi wrth y cwmni sy'n gweithredu ar ei ran yn Lloegr. Derbyniwyd taflenni a gwybodaeth am y modelau newydd a lansir ym mis Chwefror ond, ni chafwyd cyfle i'w darllen cyn heno.
- c) **Archwiliad Ariannol 2019 – 2020**
Ni dderbyniwyd y ffurflen oddi wrth BDO tan Ragfyr 22ain ac, o ganlyniad, er y nodid yn y llythyr bod rhaid cadarnhau'r cyfrifon cyn gynted â phosibl – gadawyd hynny tan heno oherwydd y gwyliu ac ati. Penderfynwyd cadarnhau'r archwiliad ac

arwyddir y ffurflen gan y Cadeirydd a'r Clerc i gwblhau'r broses – arddangosir yr hysbyseb cwblhau ar y wefan wedyn.

ch) **Archwilio Cymru – Cylch Archwilio Tair Blynedd**

Derbyniwyd copi o'r drefn archwilio newydd, ynghyd â'r cyfarwyddiadau ar ei chyfer ond, ni chafwyd cyfle i'w darllen cyn heno. Noda pa flwyddyn y derbynia'r cynghorau'r archwiliad sy'n seiliedig ar drafodion a'r ddwy flynedd y defnyddir y gweithdrefnau archwilio sylfaenol. Dwy flynedd sylfaenol (2020 – 2021 a 2021 - 2022) sydd gan y Cyngor hwn ac archwiliad llawn yn 2022 – 2023.

9. **MATERION CYNLLUNIO**

a) **Apêl 4 Cae Du, Aber-soch**

Anfonwyd sylwadau'r Cyngor hwn eisoes.

b) **Gorfodaeth (Amrywiol)**

Anfonwyd ffurflenni cwyn swyddogol, yn unol â chais y swyddogion – ni ystyrir cwynion heb un erbyn hyn – ar yr isod dros y misoedd diwethaf ond, ni dderbyniwyd ateb iddynt er yr anfonwyd rhai ar ddechrau'r clo cyntaf:

- i) sied/cwt mawr – Cae Morwel, Lôn Garmon, Aber-soch
- ii) gosod gwasanaethau a charafán - cae gyferbyn â Lôn Cernyw, Bwlchtocyn
- iii) creu/adeiladu ffordd/llwybr i'r traeth – Y Warren, Aber-soch
- iv) modurdy/storfa cwch newydd – Gerallt, Bwlchtocyn
- v) uchder tŷ newydd a ganiatawyd – Palmyra, Lôn Golff, Aber-soch
- vi) estyniad ar ôl dymchwel modurdy – Aber View, Lôn Garmon, Aber-soch.

Hefyd, atgoffwyd yr Adran (fel gofynnwyd ym mis Ebrill y llynedd) nad symudwyd y garafán o'r Hen Iard Lo, Lôn Garmon, Aber-soch, yn unol â dyfarniad apêl yr Arolygaeth Gynllunio.

c) **Grŵp Cynefin – Datblygiad Ystâd Cornwall, Mynytho**

Ni ellir ymateb i'r ymholiad am sefyllfa'r tŷ a ddeil heb ei werthu ar yr uchod ar hyn o bryd; cysylltir i roi diweddariad cyn gynted â phosibl.

10. **MATERION PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

a) **Arwyddion Haearn Bwrw**

Ni cheisiwyd prisiau na phaentiwr hyd yma.

b) **Cau Ffyrdd**

Derbyniwyd copi o Rybudd yn hysbysu y caeid Ffordd Ddi-ddosbarth gyferbyn â Bryncelyn Uchaf, Cilan, ar Ragfyr 22ain – tueddir i'w derbyn ar ôl y cau.

11. **MATERION HAWLIAU TRAMWY**

a) **Ail-gategoreiddio'r Llwybrau**

Ni lwyddwyd cysylltu â'r Uwch Swyddog Hawliau Tramwy i geisio trefnu cyfarfod i drafod yr uchod cyn hysbysebu tendr torri'r llwybrau.

12. **TRAETHAU**

a) **E-bost Cyng. Dewi W. Roberts**

Derbyniwyd copi, er gwybodaeth, o ateb yr uchod parthed pryder y Gymdeithas Dwristiaeth am y 'jetskis' ar gyfer y tymor gwyliau nesaf. Anfonwyd llythyr cefnogaeth at Gyngor Gwynedd yn ei ymdrech i ddeddfu bod angen trwydded ar gyfer eu gyrru (a chychod cyflym) yn dilyn problemau'r haf diwethaf.

13. **SEDD WAG WARD ABER-SOCH – CYFETHOL**

Un a ddangos diddordeb yn y sedd – Carys Hughes; penderfynwyd ei chyfethol.

14. **CIOSG BT STRYD FAWR, ABER-SOCH**

Cyfarfu'r Clerc â Thomas Hughes, Swyddog PADS, Gwasanaeth Ambiwlans Gogledd Cymru, yn gynharach heddiw i drosglwyddo'r siec am £1249.65 (gweler 18. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod) a thynnwyd llun ar gyfer cyhoeddusrwydd. Cysylltir â BT i ofyn iddo dynnu'r ffôn (ond, gadael y cyflenwad trydan/golau) ac unwaith y digwydd hynny, gobeithir y gosodir y diffribiliwr erbyn canol mis Chwefror. Bydd rhaid gofyn i Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol symud y bin ysbwriel am ychydig oriau tra glanheir y ciosg a gosod y sticeri.

15. **ARWYDDBYST PREN**

Ni dderbyniwyd ymateb oddi wrth Sioned Mair Williams, yr arlunydd/cynllunydd.

16. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULIC)**

i) **Canlyniad Arolwg Aelodau**

Copi, er gwybodaeth, o'r uchod.

ii) **Achub Bywyd Cymru (ABC)**

Gwybodaeth am gydweithrediad ULIC â'r uchod i annog cymunedau ddeall pwysigrwydd dysgu CPR a defnyddio diffibriliwr. Gofynnir i gynghorau lwytho fideo hyfforddi ABC ar eu gwefannau, ynghyd â hysbysu/dosbarthu gwybodaeth.

iii) **Sesiynau Hyfforddiant o Bell fis Ionawr**

Rhestr o'r hyfforddiant er gwybodaeth.

iv) **Diwrnod Gweithwyr y GIG, Gofal Cymdeithasol a Rheng Flaen**

Gwybodaeth am yr uchod ar Orffennaf 5ed.

v) **Aildrefnu Isetholiadau Llywodraeth Leol**

Ni fydd modd trefnu Isetholiadau gohiriedig ym mis Chwefror unwaith y daw Rheoliadau newydd i rym.

vi) **Eich Tref, Eich Dyfodol!**

Gwybodaeth am adolygiad o ddyfodol trefi Cymru gan Archwilio Cymru a anfonir at gynghorau cyn diwedd y mis.

b) **Richard Clarke – 'Covid-19 Preventative Behaviour and Symptoms Study'**

Gwahoddiad i gymryd rhan mewn prosiect ymchwil rhyngwladol wedi'i leoli ym Mhrifysgol Southampton ar yr uchod; angen llenwi holiadur.

- c) **Howard Huws, Cylch yr Iaith – Twristiaeth a Chyflogaeth**
Copi o'r ddogfen a baratowyd sy'n cynnwys tystiolaeth ystadegol ynglŷn â thwristiaeth. (Anfonir copi at bawb.)
- ch) **R.H. Wyn Williams – Ymgynghoriad Premiwm Treth Cyngor ar Ailgartrefi ac Anheddau Gwag Hirdymor**
Linc, er gwybodaeth a, gobeithio ymateb i'r uchod – anfonir at bawb.
- d) **Adran Gyfreithiol – Cais Trwydded Eiddo Abersoch Diner**
Copi, er gwybodaeth, o lythyr Cyfreithiwr y Cyngor at yr ymgeisydd yn dilyn caniatáu'r drwydded. Mynychodd Cyng. Dewi W. Roberts a'r Clerc gyfarfod o'r Is-bwyllgor Trwyddedu'n rhithiol i gyflwyno ein sylwadau, ynghyd ag eraill. Mynegwyd siomedigaeth yn y penderfyniad o ganiatáu'r drwydded, yn arbennig o ran ymestyn yr oriau gwerthu alcohol o 9.30 tan hanner nos yng nghanol tai o gymharu â'r tafarndai eraill a saif yr ochr arall i'r stryd.
- dd) **Jonty Torr – Ymchwil ar gyfer Traethawd 'The Impact of Second Home Tourism on the Rural Communities in Gwynedd'**
Gwahoddiad i fod yn rhan o'r ymchwil gan y canolbwyntia'n benodol ar Aber-soch a'r cylch – cytunodd y Clerc.

17. DYFARNIADAU CYNLLUNIO

C19/1204/39/LL	Bwriad i greu chwe fflat gwyliau i'w gosod drwy drosi ac ymestyn y prif adeilad a dymchwel yr annedd presennol yng nghefn y safle a chodi blociau llety newydd yn ei le – Venetia, Lôn Sarn Bach, Aber-soch – Gwrthodwyd
C20/0070/39/DT	Estyniad yn cynnwys codi uchder y to – Tŷ Wiggins, 12 Lôn Cernyw, Bwlchtocyn – Gwrthodwyd
C20/0788/39/LL	Codi adeilad storio contractwr amaethyddol – Tir ger Berth Wen, Bwlchtocyn – Caniatawyd ag amodau
C20/0833/39/LL	Dymchwel modurdy presennol a chodi adeilad newydd i gynnwys dwy ystafell wely ychwanegol i'w gosod – Hafod, Lôn Gwydryn, Aber-soch – Caniatawyd ag amodau
C20/0872/39/DT	Codi modurdy ar wahân – Corner House, Lôn Golff, Aber-soch – Caniatawyd ag amodau
C20/0880/39/DT	Estyniad ochr ag addasiadau – 71 Cae Du, Aber-soch – Caniatawyd ag amodau
C20/0883/39/DT	Estyniad llawr cyntaf – Bwthyn y Pheasant, 14 Stad Sant Tudwal, Mynytho – Gwrthodwyd
C20/0895/39/LL	Dymchwel modurdai presennol a chodi sied storio newydd – Iard Creigir Wen, Lôn Engan, Aber-soch – Caniatawyd ag amodau
C20/0896/39/DT	Codi estyniad ochr deulawr a phorth – 274 Cae Du, Aber-soch – Caniatawyd ag amodau
C20/0927/39/DT	Ailosod/ad-drefnu ffenestri ac ailosod balwstradau balconi – Tŷ Uchaf, Bwlchtocyn - Caniatawyd ag amodau
C20/0929/39/YA	Rhybudd ymlaen llaw o fwriad codi adeilad amaethyddol – Towyn, Llanengan – Caniatawyd ag amodau
C20/1035/39/TR	Gwaith gosod llinell drydan newydd – Cwrt y Chwarel, Allt Sychnant, Llangian – Caniatawyd

18. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

Taliadau

Cadarnhawyd talu cyflog mis Ionawr (Rh/S 002331) a chostau gweinyddol (Ebrill – Ionawr, Rh/S 002332) y Clerc, ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

- a) Awyr Las – £1249.65 (Rh/S 002329 – Diffribiliwr)
- b) E-on – £21.47 (D/U – Cyflenwad Trydan y Toiledau)
- c) Archwilio Cymru – £221.75 (Rh/S 002330 – Archwiliad Ariannol 2019 – 2020)
- ch) Comisiynydd Gwybodaeth – £35.00 (D/U – Trwydded GDPR 2021)

Derbyniadau

Ni dderbyniwyd dim.

19. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Chwefror 10fed, 2021 am saith o'r gloch ar **Zoom**